



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46340

Llywodraeth Cymru
Dogfen ymgynghori

Y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladu (FfCAA)

Dyddiad cyhoeddi: 10 Tachwedd 2022

Camau gweithredu angenrheidiol: Ymatebion erbyn 05 Ionawr 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y Fframwaith Cymhwysedd arfaethedig ar gyfer Arolygwyr Adeiladau. Mae'r fframwaith yn gymwys i bawb sy'n dymuno cofrestru fel Arolygydd Adeiladau, p'un a ydynt yn gweithio yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.

Sut i ymateb

Gallwch e-bostio eich ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn i'r canlynol:

enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Os ydych yn ymateb yn ysgrifenedig, nodwch yn glir eich bod yn ymateb i'r ymgynghoriad ar:

“Y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA).”

Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad canlynol:

Y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau
Rheoliadau Cynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Pan fyddwch yn ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, ac yn cynnwys:

- eich enw,
- eich swydd (os yw'n berthnasol),
- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol),
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post),
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn cyswllt

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd ar gais.

Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn,
cysylltwch â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth
Cymru drwy e-bostio:
enquiries.brconstruction@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth:
Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 8144

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gcontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddi eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD

CF10 3NQ

E-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	7
Deddf Diogelwch Adeiladau 2022	7
Cynigion	7
Y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA)	7
Beth yw cymhwysedd?	8
Meysydd pwnc cymhwysedd	8
Lefelau cymhwysedd	8
Dosbarthiadau Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig	9
Tabl lefelau cymhwysedd	9
Y camau nesaf	10

Cyflwyniad

Deddf Diogelwch Adeiladau 2022

1. Mae Deddf Adeiladu 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("Deddf 2022") yn cynnwys darpariaethau i wella lefelau cymhwysedd ac atebolrwydd yn y sector rheoli adeiladu drwy greu strwythur proffesiynol a rheoleiddiol newydd ar gyfer rheoli adeiladu.
2. Fel rhan o'r darpariaethau hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal cofrestr o arolygwyr adeiladau.
3. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau o arolygwyr adeiladau (er enghraifft, yn ôl cymwysterau neu brofiad). Bydd angen i'r rhai sy'n dymuno cofrestru fel arolygwyr adeiladau fodloni meini prawf sy'n berthnasol i'r dosbarth y maent yn dibynnu cofrestru ynddo.
4. O dan y Ddeddf, gall Gweinidogion Cymru ddirprwyo corff arall i gyflawni rhai o'u swyddogaethau. Mae ganddynt hefyd ddulliau eraill o alluogi corff i weithredu ar eu rhan. Yn y papur ymgynghori hwn, dylid darllen y term 'corff rheoleiddio' fel pe bai'r swyddogaeth yn cael ei chyflawni gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

Cynigion

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys tair dogfen, sef:
 - y ddogfen ymgynghori hon, sy'n rhoi cyflwyniad i bob dogfen;
 - y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA) sy'n nodi'r cymwyseddau y bydd angen i weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu eu dangos er mwyn cofrestru â'r corff rheoleiddio;
 - y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, sy'n cynnwys y cwestiynau ymgynghori.
6. Rydym yn ymwybodol bod rhai gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu yn gweithio yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Wrth inni gyflwyno'r system gofrestru newydd, hoffem gael gwybod am unrhyw broblemau a all godi yn sgil gwahaniaethau yn y safonau rhwng gweinyddiaethau. Ymdrinnir â hyn gan gwestiynau 1 a 2.

Y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA)

7. Mae'r FfCAA yn nodi'r cymwyseddau y bydd angen i weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu eu dangos er mwyn cofrestru â'r corff rheoleiddio. Ystyr cymhwysedd yw sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau.
8. Rhaid i weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu wneud y canlynol:
 - bod yn ddigon cymwys i wneud eu gwaith
 - peidio â gweithio y tu hwnt i'w cymhwysedd

- cynnal eu cymhwysedd
9. Mae'r FfCAA yn gymwys i **bob** gweithiwr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ni waeth pa fath o adeiladau neu brosiectau adeiladu y maent yn gweithio arnynt. **Nid** dim ond i'r rhai sy'n gweithio ar Adeiladau Risg Uwch y mae'n gymwys.
10. Rydym yn disgwyl y bydd angen i bobl ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol er mwyn parhau i fod wedi'u cofrestru.

Beth yw cymhwysedd?

11. Yn y cyd-destun hwn, mae dwy ystyr i'r term 'cymhwysedd':
- Mae cymhwysedd yn golygu **sgil** neu **allu**. Un enghraifft o hyn fyddai'r gallu i fwrw golwg dros gynllun ac asesu a yw'r datblygiad arfaethedig yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
 - Mae cymhwysedd hefyd yn golygu'r **lefel gallu** a ddangosir gan rywun mewn sgil penodol. Er enghraifft, mae'r hyn y byddai'r fframwaith hwn yn ei alw'n **gymhwysedd lefel 1** yn awgrymu mai **dim ond gwybodaeth sylfaenol** am sgil penodol a'r ffordd y mae'n gysylltiedig â'i waith y bydd ei angen ar rywun.

Meysydd pwnc cymhwysedd

12. Disgrifir naw maes pwnc cymhwysedd ym maes rheoli adeiladu o fewn y FfCAA:
- Y Gyfraith
 - Technoleg
 - Gwasanaethau adeiladu
 - Swyddogaethau a gweithgareddau
 - Asesu cynlluniau
 - Arolygu a gorfodi
 - Sgiliau rheoli a sgiliau craidd
 - Rheoli diogelwch
 - Moeseg

Lefelau cymhwysedd

13. Disgrifir pedair lefel cymhwysedd yn fframwaith y FfCAA:
- **Lefel 1, Ymwybyddiaeth**
Gwybodaeth sylfaenol am y pwnc a'r berthynas rhyngddo a'u rôl
 - **Lefel 2, Gwerthfawrogiad**
Gwybodaeth gefndir gyffredinol am y maes pwnc, ynghyd â gwerthfawrogiad o'r bwriad. Mae'n bosibl y bydd angen mewnbwn pobl eraill i asesu cydymffurfiaeth
 - **Lefel 3, Dealltwriaeth**

Gwybodaeth ddigonol am y cymhlethdodau dan sylw er mwyn gwneud penderfyniadau annibynnol ac asesu cydymffurfiaeth gwaith adeiladu nodweddiadol, gan gynnwys defnyddio mewnbwn gan arbenigwyr eraill

- **Lefel 4, Dealltwriaeth gynhwysfawr**

Gwybodaeth ddigon manwl a'r sgiliau angenrheidiol i wneud penderfyniadau am faterion cymhleth sy'n gysylltiedig â dylunio ac adeiladu a'r gallu i gomisiynu a chwestiynu cymorth arbenigol lle bo angen

Dosbarthiadau Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig

14. Disgrifir pedwar dosbarth y gall gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu gofrestru ynddynt yn y FfCAA, sef:

- Arolygydd Adeiladau **Dosbarth 1** (Cyswllt/Cynorthwyol)
Addas ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n gweithio ym maes rheoli adeiladu na all ddangos y cymwyseddau gofynnol i weithio heb oruchwyliaeth neu gofrestru yn un o'r tri dosbarth arall.
- Arolygydd Adeiladau **Dosbarth 2** (Safonol)
Addas ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu sy'n edrych i weld a yw gwaith adeiladu yn cydymffurfio â Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) a deddfwriaeth, safonau a chanllawiau cysylltiedig â chymwys eraill ar gyfer amrywiaeth o fathau o adeiladau heblaw adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn
- Arolygydd Adeiladau **Dosbarth 3** (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel iawn)
Addas ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu sy'n edrych i weld a yw gwaith adeiladu yn cydymffurfio â Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) a deddfwriaeth, safonau a chanllawiau cysylltiedig â chymwys eraill ar gyfer pob math o adeilad gan gynnwys adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Arolygydd Adeiladau **Dosbarth 4** (Rheolwr)
Yr unigolion hynny sydd, yn ogystal â meddu ar y cymhwysedd angenrheidiol i gofrestru fel Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 neu 3, yn gyfrifol am y prosesau gweinyddol a thechnegol sy'n gysylltiedig â chreu amgylchedd adeiledig diogel a chynaliadwy ac sydd am i'w cofrestriad adlewyrchu hynny.

Tabl lefelau cymhwysedd

15. Mae'r tabl ar ddiwedd y FfCAA yn crynhoi'r lefelau cymhwysedd **sylfaenol** a ddisgwylir o fewn pob un o'r naw maes cymhwysedd er mwyn cofrestru ym mhob dosbarth. Mae'n bosibl y bydd gan unigolion lefel gymhwysedd uwch na'r lefel sylfaenol ofynnol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd lefel uwch na'r lefel sylfaenol yn ofynnol, er enghraifft byddai angen i Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr) sy'n rheoli arolygwyr adeiladau Dosbarth 2 (Safonol) yn unig feddu ar gymhwysedd lefel 3 ar gyfer y gyfraith a thechnoleg, ond byddai angen i Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr) sy'n rheoli Arolygwyr Adeiladau Dosbarth 3

(Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel Iawn) feddu ar gymhwysedd lefel 4.

16. Dros amser, mae'n bosibl y bydd newidiadau yn y diwydiant yn golygu y bydd angen diwygio'r FfCAA er mwyn adlewyrchu gofynion o ran arferion gorau. Gall y corff rheoleiddio ddiwygio'r FfCAA a bydd yn rhaid iddo gyhoeddi'r rheolau diwygiedig er mwyn sicrhau y bydd unrhyw ddiwygiadau yn hygyrch.
17. Bydd y corff rheoleiddio yn monitro perfformiad yn erbyn y rhain a gall gymryd camau yn erbyn y rhai sy'n methu â bodloni'r gofynion neu'r rhai a allai fethu â'u bodloni.

Y camau nesaf

18. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para 10 wythnos yn hytrach na'r 12 wythnos safonol. Y rheswm dros hyn yw am fod y gynulleidfa darged yn fach ac er mwyn sicrhau cysondeb ag ymgynghoriad tebyg sy'n cael ei gynnal gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).
19. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 05 Ionawr 2023. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a bydd Ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn.